

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Caerffili

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Caerffili i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

### 1 Crynodeb gweithredol

Roedd Caerffili wedi cyflawni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, a rhannol gyflawni 2.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Caerffili wedi cyflawni 8 yn llawn, a 2 yn rhannol.

Ar y cyfan, mae Caerffili wedi cynnal ei berfformiad yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, gan fuddsoddi'n gryf mewn meysydd allweddol sy'n cynnwys adnoddau i blant a phobl ifanc, a darpariaeth Gymraeg. Mae bodlonrwydd cwsmeriaid yn gyffredinol uchel, ac yn yr achosion hynny o ostyngiad mewn perfformiad, mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno dadansoddiad da o'r problemau sylfaenol, gyda chapasiti staff yn ffactor sy'n cyfyngu ar nifer o feysydd. Fodd bynnag, mae'r datganiad blynyddol yn nodi'r sefyllfa ariannol heriol sydd o flaen y gwasanaeth yn y blynyddoedd i ddod, a gallai hyn effeithio ar yr adnoddau i'r gwasanaeth a'r lefelau staffio yn y dyfodol. Gan fod capasiti eisoes wedi'i ymestyn, bydd angen cynllunio gofalus er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth barhau i gynnal ei lefel perfformio presennol. Yn ganolog i gynlluniau'r awdurdod at ddyfodol y gwasanaeth nodir bod cynigion i ddatblygu modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaeth, sef alinio â gwasanaethau eraill i'r cyhoedd fel rhan o 'ganolfannau' wedi'u lleoli yn y gymuned.

- Cynhaliwyd arolwg i ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Mai 2017, a hwnnw'n dangos lefelau bodlonrwydd uchel, gyda 99% o'r rhai a holwyd yn dweud fod y Llyfrgell yn 'dda' neu'n 'dda iawn' ar y cyfan.
- Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig ystod dda o gefnogaeth ar gyfer datblygu sgiliau ac iechyd a lles, er bod y dangosyddion effaith yma yn llai cadarnhaol. Nodir yr heriau o ddarparu gwasanaeth mewn llyfrgelloedd sydd ag un aelod o staff.
- Mae pwysau staffio hefyd wedi effeithio ar y nifer sy'n mynychu digwyddiadau / gweithgareddau llyfrgell, sydd wedi gostwng, er gwaethaf cynnydd cyffredinol yn nifer y digwyddiadau sydd ar gael.
- Cafwyd gostyngiad yn nifer yr ymweliadau corfforol, benthycwyr gweithredol a benthyciadau llyfrau i oedolion, a hynny'n groes i'r cynnydd yn nifer aelodau'r llyfrgell a benthyciadau plant, a fesul pen y boblogaeth y ddau hwn bellach yw'r uchaf yng Nghymru.
- Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyrraedd y targedau fesul pen y boblogaeth o ran derbyniadau, deunyddiau yn Gymraeg, a chyflenwi ceisiadau, ac mae ganddo ymrwymiad cryf i fuddsoddi mewn stoc ar gyfer plant ac oedolion ifanc.
- Mae darpariaeth cyfrifiaduron traddodiadol yn parhau i fod yr uchaf yng Nghymru, er bod y defnydd arnynt yn gostwng; mae cyfyngiadau ariannol yn golygu nad yw Wi-Fi ar gael mewn chwe man gwasanaeth.
- Mae'r lefelau staffio wedi'u cadw ar lefelau 2016-17, ac ni chaiff yr un o'r targedau eu

cyrraedd. Nid yw'r gwasanaeth yn rhagweld y bydd mewn sefyllfa i gynyddu nifer y staff yn y dyfodol, gyda'r posibilrwydd y bydd pwysau pellach ar gyllidebau.

- Nid oedd Caerffili unwaith eto wedi llwyddo i gyflwyno unrhyw wybodaeth ariannol, heblaw am wariant ar ddeunyddiau, megis o dan y pumed fframwaith.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

### 2.1 Hawliau craidd

Roedd Caerffili wedi cyflawni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, a rhannol gyflawni 2. Mae hawl graidd 7 wedi'i chyflawni'n rhannol gan nad yw'r gwasanaeth ond yn gallu darparu cyfleusterau Wi-Fi mewn 12 o'i 18 man gwasanaeth; nodir bod y posibilrwydd o ariannu mwy o ddarpariaeth Wi-Fi wrthi'n cael ei archwilio. Mae Cynllun Gweithredu Strategol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar gyfer 2017-2020 ar waith, ond nid yw hwn ar gael ar-lein eto oherwydd oedi wrth ddiweddarau'r wefan; o ganlyniad, dim ond yn rhannol y caiff yr hawl hon ei chyflawni ar gyfer 2017-18.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, roedd Caerffili wedi cyflawni 8 yn llawn, a 2 yn rhannol.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad manau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	✓	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	✓	

<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	✓	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n rhannol
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	x	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	x	
iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Ni fu newid ym mherfformiad Caerffili o'i gymharu â blwyddyn olaf y pumed fframwaith o ran y dangosyddion ansawdd hynny y mae modd eu cymharu'n uniongyrchol.

### 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Caerffili ei arolwg defnyddwyr oedolion ym mis Mai 2017; mae'r arolwg plant wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai 2018.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	<i>amherthnasol</i>		73%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	38%	7/7	38%	90%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	98%	4/17	75%	98%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Caerffili bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Clwb Scrabble – effaith Clwb Scrabble y llyfrgell, sydd wedi meithrin cyfeillgarwch oes ymhlith y grŵp, a gan fod y cyfranogwyr yn rhai wedi ymddeol yn bennaf, mae'n eu cadw'n egniol ac wedi ymgysylltu, gyda'r llyfrgell yn darparu man diogel iddynt gwrdd.
- Cymorth i Deuluoedd – mae plentyn anabl sydd ag anghenion cymhleth yn ymwelydd llyfrgell rheolaidd gyda'i theulu; mae'r llyfrgell wedi cefnogi ei dysgu a'i chyfathrebu mewn amgylchedd cymunedol croesawgar, a'i mam hefyd yn gallu cwrdd â ffrindiau.
- Cefnogi Cyflogadwyedd – sut mae cyfleusterau TG y llyfrgell a'r gefnogaeth a gynigir

gan staff wedi galluogi un defnyddiwr i gwblhau cymhwyster ar-lein a chael cyflogaeth.

- Clwb Codio – effaith arlwy'r Clwb Codio i blant ac oedolion; mae'r cyfranogwyr wedi gwella eu sgiliau, wedi ennill hyder ac wedi gwneud ffrindiau newydd. Cawsant eu hannog hefyd i ymweld â'r Llyfrgell yn amlach a benthycya mwy o lyfrau o ganlyniad.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Caerffili ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
DA 1 Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd:	24%	7/7	24%	83%	94%	24%
c) iechyd a lles	33%	7/7	33%	65%	95%	26%
d) lle diogel a chroesawgar	99%	2/7	90%	98%	100%	98%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	94%	3/7	88%	91%	98%	94%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	3/7	93%	99%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	92%	2/6	74%	86%	94%	93%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	99%	1/7	93%	97%	99%	98%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	<i>amherthnasol</i>		8.5	9.1	9.2	9.3
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr fesul pen	51	8/22	10	32	238	56
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	69	21/22	15	199	473	118
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth	330	7/22	82	228	684	339
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	4,291	7/22	2,501	4,047	7,014	4,431
b) rhith-ymweliadau fesul pen	473	17/22	243	866	2,211	450
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	220	2/22	100	154	229	227
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen*	64	12/22	4	68	663	
DA 11 Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul pen <sup>^</sup>	14	1/22	5	9	14	14
c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	20%	19/22	14%	27%	67%	21%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	16	17/21	3	31	196	10
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	497	18/21	40	1,346	11,939	321
DA 14 Gwariant gweithredol						

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
a) cyfanswm gwariant fesul pen	<i>amherthnasol</i>		£7,047	£11,915	£17,771	<i>amh</i>
b) % ar staff	<i>amherthnasol</i>		44%	63%	75%	<i>amh</i>
% ar adnoddau gwybodaeth	<i>amherthnasol</i>		4%	13%	25%	<i>amh</i>
% ar offer ac adeiladau	<i>amherthnasol</i>		0%	4%	20%	<i>amh</i>
% ar gostau gweithredol eraill;	<i>amherthnasol</i>		0%	18%	37%	<i>amh</i>
c) gwariant cyfalaf fesul pen	<i>amherthnasol</i>		£0	£338	£17,432	<i>amh</i>
DA 15 Cost net am bob ymweliad	<i>amherthnasol</i>		£1.24	£1.82	£2.41	<i>amh</i>
DA 16 Oriau agor <sup>#</sup>						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	1/21	0.00%	0.02%	1.28%	0.00%
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	1/20	0.00%	0.35%	11.24%	0.00%

\* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

^ am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

# Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

### 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

#### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cynhaliodd Caerffili ei arolwg defnyddwyr oedolion ym mis Mai 2017, gan gael cyfraddau bodlonrwydd cwsmeriaid oedd yn uchel ar y cyfan, er bod y dangosyddion effaith (datblygu sgiliau / iechyd a lles) yn parhau i fod yn isel. Nodir y bydd gwaith pellach yn cael ei dargedu i gynyddu hyder defnyddwyr o ran y gefnogaeth y gall y Llyfrgell ei chynnig yn y meysydd hyn. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn parhau i gynnig ystod lawn y gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, er bod y gwasanaeth yn nodi bod hyn wedi dod yn fwy heriol, yn enwedig i lyfrgelloedd sydd ag un aelod o staff. Cynigir cefnogaeth dda hefyd ar gyfer iechyd a lles wrth gael casgliadau penodol ym mhob man gwasanaeth, ac ystod o bartneriaethau gwybodaeth iechyd ar waith. Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi defnyddwyr wedi'u trefnu ymlaen llaw wedi gostwng ychydig yn 2017-18, ond cafwyd mwy o ostyngiad yn y niferoedd sy'n cael cymorth hyfforddiant anffurfiol, sydd bellach ymhlith yr isaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth. Priodola'r gwasanaeth hyn i effaith cael un aelod o staff yn ei ganghennau llai o faint, a mwy o hyder TG gan gwsmeriaid ynghyd â mwy o ddefnydd ar eu dyfeisiau TG eu hunain.

#### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Caerffili yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, gan fod â 18 cangen yn gwasanaethu ei gymunedau lleol. Nododd y gwasanaeth fod digwyddiadau/gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr sydd â gofynion arbennig yn cael eu cynnal ym mhob un o'r canghennau hyn, er y gellid wedi cyflwyno manylion pellach am natur y gwaith hwn. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau llyfrgell ar y cyfan wedi gostwng ychydig, er bod nifer y digwyddiadau sydd ar gael wedi codi o'i gymharu â 2016-17. Mae'r gwasanaeth yn priodoli hyn i'r gostyngiad yn nifer y dosbarthiadau ysgol sy'n mynychu, a hynny wedi digwydd oherwydd mwy o bwysau amser ar garfan lai o staff proffesiynol. Darlun cymysg a geir o'r

dangosyddion defnydd eraill, gyda chwmp yn nifer yr ymweliadau corfforol a'r benthycwyr gweithredol, ond cynnydd yn nifer aelodau'r llyfrgell a benthyciadau llyfrau plant, lle mae perfformiadau bellach yr uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth. Nodir bod y gostyngiad cymharol mewn benthyciadau llyfrau i oedolion a chyfraddau benthycwyr gweithredol yn faes blaenoriaeth i'w dargedu yn 2018-19.

### **3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)**

Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r gofynion yn ymwneud â derbyniadau fesul pen y boblogaeth, a darparu adnoddau Cymraeg, gydag ymroddiad cryf i gadw casgliadau Cymraeg ar y lefel uchaf bosibl. Mae ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, cefnogi ysgolion a darllen yn y teulu hefyd yn themâu strategol allweddol yng Nghynllun Gweithredu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd 2017-2020; adlewyrchir hyn yn y buddsoddiad a wneir mewn stoc plant ac oedolion ifanc, a'r nifer uchel o fenthyciadau llyfrau plant sy'n deillio o hynny. Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r gofynion ar gyfer cyflenwi ceisiadau, gyda mwyfwy o geisiadau yn cael eu gwneud trwy gynllun Books4U. Mae Caerffili yn parhau i fod â lefel uchel o ddarpariaeth cyfrifiaduron er y nodir y bydd hyn yn cael ei adolygu yn ystod 2018-19 i sicrhau gwerth am arian, wrth i lefelau'r defnydd arnynt barhau i ostwng. Er bod cyfyngiadau ariannol yn cyfyngu ar Wi-Fi, a bod defnyddwyr yn dal i ddibynnu ar gyfleusterau TG traddodiadol, bydd y ddarpariaeth yn y maes hwn yn parhau'n bwysig.

### **3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)**

Mae nifer y staff cyffredinol a phroffesiynol wedi'u cynnal ar lefelau 2016-17, er nad yw'r targed a osodwyd yn y naill achos na'r llall wedi'u cyrraedd. Nid yw'r gwasanaeth yn rhagweld y bydd mewn sefyllfa i gynyddu nifer y staff yn y dyfodol, ac awgryma cynllunio ariannol ar draws yr awdurdod ar gyfer 2018-2022 y gall cyllidebau ddod dan bwysau pellach. Mae arweinyddiaeth â chymwysterau yma, ac mae'r gwasanaeth wedi cynyddu ei fuddsoddiad mewn hyfforddiant staff a datblygiad proffesiynol yn 2017-18. Mae niferoedd / oriau gwirfoddolwyr wedi codi, gyda mwy o bobl yn manteisio ar y cyfleoedd a gynigir ar gyfer profiad gwaith i ysgolion, ac i oedolion sy'n gwneud lleoliadau â chymorth er mwyn mynd i gyflogaeth neu ddychwelyd i'r gweithle.

Unwaith eto, ni allai Caerffili ddarparu gwybodaeth ariannol, ac eithrio mewn perthynas â gwariant ar ddeunyddiau, megis dan y pumed fframwaith. Mae oriau agor yn parhau i gyrraedd y targed a osodwyd, ac ni chafwyd unrhyw gau heb ei gynllunio neu doriad ar y gwasanaeth yn 2017-18.

## **4 Cyd-destun strategol**

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau adrodd sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Manylodd Caerffili ynghylch ei gyfraniad at Amcanion Lles y Cyngor, a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ffocws clir ar wella canlyniadau addysg, hwyluso cyflogaeth, cefnogi ffyrdd iach o fyw, a gwella lles.

## **5 Cyfeiriad i'r dyfodol**

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, mae Caerffili yn nodi ei fod yn wynebu cyfnod pellach o newid sylweddol, oherwydd y pwysau ariannol parhaus ar yr awdurdod. Rhagwelir gostyngiadau cyllid dros y tair blynedd nesaf, a'r cynllunio yn canolbwyntio ar alinio'r meysydd

darpariaeth sydd â chyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd, a datblygu modelau darparu newydd. Mae'r cynigion yn bennaf yn ymwneud â datblygu 'canolfannau' cymunedol newydd, gan ddwyn ynghyd gwasanaethau llyfrgell, canolfannau cymunedol a thimau gwasanaeth cwsmeriaid. Nodir bod yr awdurdod lleol yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnig y ddarpariaeth llyfrgell gyhoeddus orau bosibl yn ystod y cyfnod hwn o gyfyngiadau ariannol.

## **6 Casgliad**

Ar y cyfan, mae Caerffili wedi cynnal ei berfformiad yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, gan fuddsoddi'n gryf mewn meysydd allweddol sy'n cynnwys adnoddau i blant a phobl ifanc, a darpariaeth Gymraeg. Mae bodlonrwydd cwsmeriaid yn gyffredinol uchel, ac yn yr achosion hynny o ostyngiad mewn perfformiad, mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno dadansoddiad da o'r problemau sylfaenol, gyda capasiti staff yn ffactor sy'n cyfyngu ar nifer o feysydd. Fodd bynnag, mae'r datganiad blynyddol yn nodi'r sefyllfa ariannol heriol sydd o flaen y gwasanaeth yn y blynyddoedd i ddod, a gallai hyn effeithio ar yr adnoddau i'r gwasanaeth a'r lefelau staffio yn y dyfodol. Gan fod capasiti eisoes wedi'i ymestyn, bydd angen cynllunio gofalus er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth barhau i gynnal ei lefel perfformio presennol. Yn ganolog i gynlluniau'r awdurdod at ddyfodol y gwasanaeth nodir bod cynigion i ddatblygu modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaeth, sef alinio â gwasanaethau eraill i'r cyhoedd fel rhan o 'ganolfannau' wedi'u lleoli yn y gymuned.